Newyddion Bethlehem

www.gwe-bethlehem.org Gwaelod-y-Garth Gwanwyn 2009

Yn eisiau: Cantorion!

Ydych chi'n ffansïo canu corws neu ddau o'r Meseia? Da iawn! Mae Delyth Evans yn ymbil am eich help!

Y gweinidog, R. Alun, sydd wedi herio aelodau Bethlehem i roi perfformiad byr yn ystod y gwasanaeth o fawl ar fore Sul Ebrill 26. Felly, dyma eich cyfle mawr chi. Os nag ydych chi erioed wedi eu canu, fe fyddwch wedi clywed y ddau gorws – "A Gogoniant yr Iôr" a'r "Haleliwia" ei hunan, wrth reswm.

Mae Delyth yn ffyddiog bod digon o adnoddau ymhlith yr aelodau i fentro ac fe gewch ymuno yn yr ymarferion o fore heddiw hyd y perfformiad mawr! Os oes ganddoch chi eich copi eich hunan, dewch a fe!

I arall eirio 'chydig ar yr hysbyseb sbwriel yna – "Dyma eich dyfodol – peidiwch a'i ddifetha"!

~~~~~~~~~

Llongyfarchiadau i un o'r aelodau, Carys Lamb, Llantrisant, ar ei phriodas â Michael Spicer, ar Ionawr 3, 2009, ym Methlehem.

Na – nid y llun enwog gan Curnow Vosper!

Ar fore Mawrth 1af, gallech yn hawdd fod wedi camgymryd yr olygfa uchod am un arall o luniau'r gwr baentiodd y darlun o "Salem"! Dyma blant yr Ysgol Sul yn ystod y gwasanaeth Gŵyl Ddewi.

Mae gennym wefan newydd sbon ar eich cyfer fel aelodau Bethlehem

[Felly Bwletin "byrrach a gwyrddach" gan fod cymaint o wybodaeth bellach ar gael i bawb.]

Cliciwch ar:

www.gwe-bethlehem.org

Neges gan y Gweinidog

Sgotwr Dynion

Yde chi'n un o'r bobol hynny sy', fel fi, ym methu osgoi'r demtasiwn o arwain cerddorfa anweledig? Prun ai a ydw i o gwmpas y gegin neu wrth lyw y car fe fydda i'n chwifio fy mreichiau i guriad y gerddoriaeth ac yn cael pleser rhyfedd wrth wneud hynny. Dyw'r ffaith na fedra i ddarllen cerddoriaeth yn rhwystr yn y byd. Mae cerddorfa'r BBC a'r Halle, yr LSO a'r XYZ yn ymateb yn ufudd i bob ystum.

Ond ar yr adeg hon o'r flwyddyn rheswm gwahanol sy' gen i dros blygu penelin a chwipio'r arddwrn. Ar Fawrth y trydydd fe agorodd y tymor pysgota ar lawer o afonydd Cymru. Felly dyna hel yr offer i lawr o'r atig a pharatoi ar gyfer cyfarfod y gymdeithas unigryw honno sy'n cyfarfod ar lan a thorlan o hyn hyd yr hydref gan daeru fod yr un a gollwyd yn llawer mwy o faint na'r un neu ddau a ddaliwyd.

A oeddwn i lawn mor frwdfrydig wrth roi'r offer i gadw? A wnes i iro'r rîl a glanhau'r wialen? A gofies i ofalu am y lein fel y bydd honno'n nadreddu'n osgeiddig tros fy ysgwydd. A'r plu; faint o drefn sydd ar y rheiny? Fe dynnais y mwd oddi ar y sgidie sgota siawns. Y gyfrinach yw paratoi.

Ac un cwestiwn ola – a ydw i'n cael cymaint o flas ar sgota dynion? Fel un a fwriodd ei brentisiaeth ar afon Teifi mae'r ateb i hwn'na'n hawdd – odw glei! Dwi'n edrych ymlaen at y gymdeithas sy'n gorfod sôn am y rhai a gollwyd ond yn fwy fyth am y rhai a ddaliwyd gan gyfaredd yr un a'n denodd o'r dorlan i'r gorlan. Teit leins!

R Alun Evans

Ysgrifennydd Bethlehem:
Rhys Dafis
Rhif Ffôn:029 20 89 13 60
rhysdafis@aim.com
~~~~~~~~~

Bedydd Cadi Ellis Griffiths, Pentyrch, ar Ionawr 25. Croeso mawr i Cadi!

Suliau Ebrill – Medi 2009

EBRILL
5 Parch Lona Roberts
10 Gwasanaeth bore'r Groglith
12 Parch R Alun Evans (**Cymun**)
19 Parch Gareth Reynolds
26 Parch R Alun Evans

MAI
3 Parch Cynwil Williams
10 Parch R Alun Evans
(**Cymundeb Mawr Mai**)
(Cymorth Cristnogol - plant)
17 Parch Milton Jenkins
(Cwrdd Mawr bore'n unig)
24 Parch Carwyn Arthur
31 Parch Eirian Wyn

MEHEFIN
7 Parch D Haydn Thomas
14 Parch Gwilym Wyn Roberts
21 Miss Eurwen Richards
28 Parch R Alun Evans **(Cymun)**

GORFFENNAF
5 Parch Dafydd Andrew Jones
12 Parch R Alun Evans (**Cymun**)
Swper haf am 5.00
19 Sul y Cyfundeb (oedfa allanol)
26 Parch R Alun Evans

AWST
2 Parch Eirian Rees (**Cymun**)
yn y Tabernacl, Efail Isaf (10.45)
9 Gwasanaeth ym Methlehem
(yng ngofal Eirlys Davies)
16 Tabernacl, Efail Isaf (10.45)
23 Gwasanaeth ym Methlehem
(yng ngofal Ian Hughes)
30 Tabernacl, Efail Isaf (10.45)

MEDI
6 Parch Lona Roberts
13 Parch R Alun Evans (**Cymun**)
20 Parch Tom Defis
27 Parch R Alun Evans

Cofiwch hefyd am y:

Swper Haf

(yn y Festri)
Nos Sul, Gorffennaf 12

Croeso i Aelodau Newydd:

Ydyn, maen nhw'n dal i gyrraedd!

- Ar Chwefror 8, cafodd **Siwan Jones**, Westbourne Road, Yr Eglwys Newydd, ei derbyn yn aelod.
- Yna ar Fawrth 22, byddwn yn derbyn **Huw a June Lloyd**, Goetre Fawr, Radur, yn aelodau. Mae'r ddau wedi treulio 20 mlynedd yn Lloegr cyn symud i'r ardal a June yn gobeithio byddwch chi'n rhoi cyfle iddi ymarfer ei Chymraeg!

Llongyfarchiadau i:

- **Siwan Rhys**, Creigiau, ar ennill gwobr arbennig yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Rhan o'r wobr fydd perfformio concerto mewn cyngerdd nos ar 17 Mehefin yn Neuadd Dewi Sant.
- **Rwth Ellis Owen**, Creigiau, ar gael ei phenodi'n Ymgynghorydd ym Maes Pelydr X yn Ysbytai Caerdydd a'r Fro.

Nofel a thaith Catrin

Mae **Catrin Dafydd**, Gwaelod y Garth, wedi ei dewis yn un o 5 awdur ifanc sy'n teithio "O Walia i Washington". Mae "Random Deaths & Custard, ei nofel Saesneg gyntaf, bellach wedi bod ar restr fer ymgyrch Diwrnod Byd-eang y Llyfr: "Spread the Word: Books to Talk About 2009".

Anfonwn ein cofion at:

- **Idris Hughes,** y gŵr bwysodd y botwm i lansio gwefan Bethlehem. Mae Idris wedi bod yn absennol o'i sedd ers rhai wythnosau. Mae'n dal i gadw llygaid direidus arnon ni drwy'r ymwelwyr sy'n galw heibio iddo yn Ysbyty Rookwood!
- **Brian Davies**, Creigiau, sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty'n ddiweddar.

Y Cwrdd Merched

Dau ddyddiad pwysig i'ch dyddiadur:
Ebrill 21ain –
Pryd o fwyd ganol dydd
yn Nhy Bwyta Loch Fyne,
Y Bontfaen.
(Enwau i Ann Passmore).
Mai 5ed –
Y Trip Blynyddol
i Amgueddfa Cyfarthfa Merthyr Tudful ac ymlaen i'r Fenni.
Cychwyn o'r gofgolofn yn Radur am 9:15yb.

Cydymdeimlwn â'r canlynol:

- **Enid Davies**, Creigiau, a gollodd ei mam, **Mrs Nalda Rees**, Pontarddulais, ddechrau Ionawr. Roedd Mrs Rees yn ein hoedfa fore'r Nadolig.
- **Ann Passmore** a'r teulu, ar ôl colli ei thad, **Mr. Dewi Bonner**, Llantrisant, yn ail hanner mis Ionawr. Roedd Mr Bonner yn mynychu Bethlehem yn rheolaidd cyn i'w iechyd wanhau a chawsom ei gwmni mewn dau wasanaeth Nadolig yn Nhy Eirin, Gilfach Goch, dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Bu'n brifathro, llywydd Prydain undeb yr NUT, yn gynghorydd ac ymladdwr glew dros addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Anfonwn ein cofion hefyd at chwaer a brawd Ann - Elinor a David.
- **Teulu Mrs Luned Williams**, Radur, fu farw yn Ionawr. Roedd wedi symud i'r ardal o Gonwy ac yn mynychu Bethlehem yng nghwmni Eirlys ers rhai misoedd.
- **Gwenno Huws**, Pontcanna, wedi colli ei modryb, **Mai Evans,** o Gaerdydd, a Llanfyllin cyn hynny, ddiwedd Ionawr.
- **Cath Edwards**, Llandaf, wedi colli cyfnither yn Abertawe.

Cyngerdd Bangla Cymru

Noson Codi'r To

Nos Wener, Mai 8 am 7.30
Côr Merched Canna
Côr Ysgol Gwaelod-y-Garth
Delwyn Siôn
Oedolion:£5 (Plant am ddim)

Mae'r tocynnau'n cael eu dosbarthu nawr! O leiaf 2 docyn i bob aelwyd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael eich tocynnau a naill ai'n eu prynu (a dod yno) neu'n eu gwerthu i rywun arall (os na allwch ddod)!

Cyfeiriad ein gweinidog :
Y Parchedig Ddr R. Alun Evans,
Y Wenallt, 8 Heol Elmgrove,
Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd CF14 2BW
Ffôn: 02920 520 854
e-bost: ralun.evans@virgin.net